

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 11eg o Ebrill 2017.

1. **Preseanol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iwan Lloyd Williams, Nerys Williams, Justin Davies – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwynnaf Roberts – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Ffion Jones - Nantlle / **Ymddiheuriadau:** Dyfed Edwards – Penygroes.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mawrth.** Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion a Nerys yn eilio.
4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Adnewyddu yswiriant – caniatwyd adnewyddu'r yswiriant preseanol gan fod cais yswiriant posib ar yr ystafelloedd newid yn Nhalysarn wedi amharu cael pris lleol arall i gymharu; Mainc Llanllyfni – Cyngor Gwynedd ddim yn fodlon symud y fainc, OP yn crybwyll efallai mai dim ond angen adnewyddu slatiau sydd ei angen arni – Justin am wneud ymholiadau efo cwmni Glasdon i gael dau slat pren a symud ymlaen; Etholiadau – dim etholiad Cyngor Cymuned, ond penderfynwyd ysgrifennu at y chwech ymgeisydd Cyngor Lleol yn gofyn yn garedig i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn rheolaidd. Ail-strwythuro agendau'r Cyngor Cymuned i gael Cyngorwyr Sir yn gyntaf.
5. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Rhannwyd y daflen ariannol a chymeradwywyd gan y Cyngor. Trafodwyd y golofn 'CCTV Penygroes' (Barry yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell) – **penderfynwyd** tynnu'r penawd o'r gyllideb a rhoi'r arian a oedd wedi ei glustnodi tuag at gyfraniadau cymunedol. Pawb yn cytuno diweddar colofn 'prosiect Macpelah' i £20000.
6. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio:** Edrychwyd ar gyfansoddiadau yn yr is-bwyllgor diwethaf. Angen cynnal is-bwyllgor mynwentydd yn fuan i drafod amodau ac yn y blaen. Trafodaethau yn parhau ar gydweithio ar brosiectau fel prosiect ynni, a Cyngor Gwynedd mewn egwyddor yn edrych yn ffafriol ar berchnogi tir ger Trem yr Wyddfa. Rhys Jones (bioamrywiaeth) wedi gwneud arolwg, ac wedi gwneud sylw gall paneli solar fod yn ddiddorol mewn perthynas a bywyd gwyllt. OP Huws wedi holi Dafydd Watts (datblygu ynni lleol) am adborth – byddai angen darganfod cwmni I fynd drwy'r broses, caniatad cynllunio a nifer helaeth o bethau eraill. Byddai yn rhaid cael cyfansoddiad i'r grŵp yn gyntaf cyn bod yn gymwys i geisio am grantiau ac ati. Is-bwyllgor i drafod manylion y cyfansoddiad arfaethedig cyn adrodd yn ol i'r Cyngor llawn. O glywed gan Iwan na fyddai yn parhau i fod yn aelod o'r Cyngor yn dilyn yr etholiad, rhoddwyd gair o ddiolch iddo am ei holl waith ac ymroddiad yn ystod ei gyfnod fel Cyngorwyr Penygroes. Sharon Jones yn hysbysu'r Cyngor fod Martin wedi newid cyfeiriad.
7. **Cynllunio:** C17/0301/22/LL – Glaslyn, Tai Nantlle, Nantlle – modurdy a sied. **Cymeradwyo.**
8. **Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd: Ymatebion

*Gwaharddiad dros dro – Ffordd Hyfryfle Talysarn; Ffordd ger Tal Eithin Isaf Llanllyfni; Lon Ddwr Llanllyfni. Rhannwyd yr wybodaeth i Gyngorwyr Llanllyfni.

*Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Stryd Fawr, Penygroes. **Pemerfyniad** y Cyngor oedd y dylid cadw cyfyngiad yn y lle glas yn unig.

*Hywel James – Llyfrgell Penygroes. Darllenwyd y llythyr – gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ol i ofyn i Gyngor Gwynedd gyfeirio at Gyngor Cymuned Llanllyfni fel 'cefnogwr' yn hytrach na 'phartner'. Holi beth yw cyfraniadau Cyngorau eraill tuag at gadw oriau llyfrgelloedd yn eu cymuned. Y Cyngor Cymuned yn gofidio fod yr wybodaeth a roddwyd am yr oriau agor wedi bod yn aneglur ar y cychwyn. Gofyn am gais blynyddol am gyfraniadau, a bod y Cyngor yn credo yn gydwybodol ein bod yn cyfrannu arian er mwyn osgoi toriad yn yr oriau agor.

*Cyfraniadau Pensiwn. Gwybodaeth am gyfraniadau 2017-18.

*Adroddiad Prisiant. Er gwybodaeth.

*Adroddiadau Pensiwn. Er gwybodaeth.

*Taliadau Hawliau Tramwy. Gwybodaeth am gwtogiadau Cyngor Gwynedd. Trafod yng nghyfarfod is-bwyllgor wythnos nesaf ac adrodd yn ol i'r Cyngor llawn.

Arall:

*Nosweithiau Parc Cenedlaethol Eryri. Gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd.

*BDO – pecyn cyfrifon i'w gwblhau.

*Canllaw Cynghorydd Da. Gwybodaeth ar gyfer Cynghorwyr – un copi caled wedi ei dderbyn, a chopiau i'w cael i'w lawrlwytho oddi ar y we.

*D Lloyd – Cais am loches bws Bro Silyn. Trafodwyd y llythyr – gofynwyd I'r Clerc gysylltu yn ol efo Dilwyn Lloyd ac awgrymu iddo gysylltu efo'r cwmni bysiau ynglyn a codi teithwyr yn Bro Silyn. Y Cynghorwyr yn dweud bod y lloches oedd ar y safle yn y gorffennol wedi cael ei symud gan ei fod yn cael ei falurio.

*PCSO K Tutte / J Holland – adborth Quarrymans Arms. Darllenwyd yr ebost. Cynghorydd Llanllyfni yn datgan fod bwriad i ddymchwel yr adeilad a bod pryder yn y pentref fod asbestos yn bresennol yn. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r perchennog i rannu'r pryderon yma a'i holi beth yw cynlluniau am yr adeilad.

*Diolch – Tom Coleman; Pwyllgor Nebo a Nasareth; Papur Lleu; Clwb Garddio Dyffryn Nantlle; Clwb y Caban; Canolfan Talysarn; Eistddfod Llanllyfni; Iwth Pen; Darllenwyd y llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol.

*Welsh Council Audits – gohebiaeth.

*Iwth Pen – Diolch.

*Tir Trem yr Wyddfa / Prosiect Penygroes. Diweddariad o'r trafodaethau gan OP Huws.

*Newyddion Un Llais. Er gwybodaeth.

*Bwletin Un Llais. Er gwybodaeth.

*Swydd Panel Ymgynghorol Dioddefwyr. Neb a diddordeb.

*Mantolen Pwyllgor Tai Duon.

9. **Materion Pentrefi Penygroes** Hydrant ar y sgwar angen sylw; twll yn y ffordd ar Ffordd y Sir ger Drill Hall; Twll ros y ffordd i hen siop Y Gloch; Cyflwr adeilad ger y Neuadd Goffa yn creu pryder – cysylltu efo Cyngor Gwynedd ; Diolch i Gyngor Gwynedd am glirio llwybr rhwng Clwb Bach a garej Poveys - coed o amgylch yr arwydd ar y llwybr yma angen eu tocio gan fod yr arwydd yn cael ei orchuddio. **Nebo Cerrig mawr** ar y palmant gwyrdd ger Hafod Unos Nasareth – holi Cyngor Gwynedd eto beth yw'r sefyllfa; tyllau ar y ffordd ger Glanaber, Fron Oleu, Pont Crychddwr.

Llanllyfni: Twll gyferbyn a Maes Castell; twll gyferbyn a trofa'r Ystad Ddiwydiannol; Manol wedi suddo ger Dolfelin. Materion I'w rhoi ar y wefan – pryder am y Cwari, Llanllyfni; Tyllau yn y ffyrdd; Taflenni baw ci.

Nantlle: Lwmp yn y ffordd yn Bro Silyn – holi Cyngor Gwynedd eto; Gofyn i lanhau gwteri Lon Nantlle.

10. **Llwybrau a Mynwentydd.** Harry wedi agor y giatau ar Sul y Mamau. **Penderfynwyd** archebu arwydd I'w osod ar y giat top yn MacPelah i rybuddio'r cyhoedd rhag parcio eu ceir yn yr adwy gan fod angen mynedfa glir; Cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd am y gerddi bach ym mynwent MacPelah ar ddau fedd. Pamffledi rheolau ddim yn barod eto, ond yn y cyfamser gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r ymgymrwyr i basio llythyr ymlaen i deuluoedd y ddau.

11. **Materion yn ymwedd a'r heddlu.** Julie Holland wedi gofyn am bamffledi baw cwn i'w rhoi drwy ddrysau tai.

12. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyrdd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Scottish Power £40.92; John Roberts £69 Manylion Taliad Llwybrau.Dwr Cymru £103.13; Yswiriant. Caniatau.

13. **Ceisiadau am arian** – Clwb Pel Droed Llanllyfni. Trafod mis Chwefror.